Grwpiau Cyfeirio Darparwyr TROSEDDU Cymru

RHANBARTH:	Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Cymru (LSC), Caerdydd
LLEOLIAD:	Swyddfa'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, 4ydd Llawr, Tŷ Marland, Sgwâr Canolog, Caerdydd, CF10 1PF
AMSER:	10.30 am
DYDDIAD:	20 Gorffennaf 2009

PRESENNOL:	Tom Jones	Comisiynydd Cymru LSF
	Hilary Williams	Rheolwr Cydlynu System Cyfiawnder Troseddol
	James O'Reilly	Rheolwr Prosiect Parodrwydd Darparwyr LSC
	Hywel Davies	Hywel Davies Cyfreithwyr
	Paul Abraham	Abraham & Co

YMDDIHEURIADAU:	James Subbiani	Lowless & Lowless
	Jon Tarrant	Wilson Devonald
	Kevin Williams	Williams & Bourne
	Sarah Grace	Morgans
	Tudur Owen	Tudur Owen Roberts Glynne
	Grahame Insley	The Gwyn George Partnership

(1. & 2.) Cyflwyniad a Chofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Croesawodd Tom Jones y grŵp i bumed Cyfarfod Grŵp Cyfeirio Darparwyr Troseddu.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol heb unrhyw welliannau.

(3.) Adborth o Gyfarfodydd Blaenorol

Dywedodd James wrth y cyfarfod y caiff pob Pwynt Gweithredu a godir ar draws eu gwlad eu cofnodi a'u holrhain mewn log gweithredu ar ein gwefan neu ar dudalennau Grwpiau Cyfeirio Darparwyr http://www.legalservices.gov.uk/aboutus/providerreferencegroups.asp i unrhyw un eu gweld.

(4.) Adolygu Aelodaeth.

Ni fu Grŵp Cyfeirio Darparwyr Troseddu Cymru ar ei lawn nerth am yr ychydig gyfarfodydd diwethaf ac felly ystyriwyd newid dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf. Cynhelir y cyfarfod nesaf am 1.30pm ddydd Mawrth, 17 Tachwedd 2009 a gobeithir y bydd yr amser a'r dyddiad newydd yn fwy cyfleus i aelodau er mwyn sicrhau presenoldeb llawn.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i wahodd mwy o gyfreithwyr a bargyfreithwyr i fod yn aelodau.

(5.) Papurau Trafod

1. <u>TROSEDDU</u>

(a) <u>Cynllun Ffi Graddedigion Ymgyfreitha</u>

C1 *A yw darparwyr yn gweld gwahanol dueddiadau mewn ymddygiad yng nghyswllt arferion gwaith (gan adfocatiaid ac ymgyfreithwyr) ers cyflwyno'r Cynllun Ffi?*

Soniwyd yn y cyfarfod blaenorol y teimlai Barnwr yn Abertawe fod y strwythur talu yn annog cyfreithwyr i fynd ag achosion i Lys y Goron ac yna'n cracio'r achos yn hytrach na delio gyda materion yn y Llys Ynadon.

Ers y cyfarfod hwnnw dangosodd ymchwiliadau o achosion a sgyrsiau gyda chyfreithwyr fod rhesymau dilys dros gracio achosion.

Teimlid fod Barnwyr yn ceisio gosod amserlen rhy lym ar achosion; bod amserlenni'n cael eu gosod ar achosion hyd yn oed cyn i'r amddiffyn dderbyn y papurau. Mae hyn yn dodi pwysau ar gyfreithwyr gan fod rhai achosion angen mwy o amser a gwaith ychwanegol arnynt cyn yr achos.

C2 *Cyflwynwyd Proses PPE newydd ar 1 Mai 2009 mewn ymgais i gytuno ar ffigur PPE ar ddiwedd achos. A oes gan ddarparwyr brofiad o'r broses newydd? A fedrant roi unrhyw adborth?*

- Teimlai'r aelodau nad oedd y broses wedi ei mabwysiadu gan unrhyw un o'r llysoedd yr oedd ganddynt achosion ynddynt. Mae biliau'n cael eu talu'n araf iawn. Caiff adfocatiaeth ei dalu'n rhesymol gyflym ond mae oedi wrth dalu biliau ymgyfreitha.

  Ni ymddengys fod y ffurflen y dylid ei defnyddio yn y Llys wedi ei rhoi i'r LSC ac mae gan rai aelodau filiau fisoedd oed heb eu talu. Dywedodd un cwmni fod ganddynt 27 bil heb eu talu, gyda'r hynaf wedi ei anfon ers 4-5 mis.

  Dylid cofrestru'r ffurflen ar CREST. Mae adfocatiaeth yn cael ei dalu ond nid biliau, hyd yn oed os cawsant eu prosesu'r un diwrnod yn y Llys.

Gwaith Cwmnïau i anfon manylion biliau at Hilary Williams. Byddai Hilary'n canfod os mai'r Llysoedd neu'r LSC sydd wedi achosi'r oedi.

- Mae diffyg tâl ar achosion Adran 51 gan y caiff yr elfen Llys Ynadon ei gynnwys yn ffi Llys y Goron. Mae CPS wedi cyflwyno Ffi Ymgyfreitha ditiadwy, felly collir y gallu i hawlio unrhyw beth.

  Medrid rhestru achosion ar gyfer traddodi a medrai cwmnïau fod â 4 gwrandawiad mewn achosion difrifol. Os yw'r CPS wedyn yn cyhuddo diffinyddion gyda chyhuddiad newydd ditiadwy'n unig a bod yr achos yn mynd yn syth i Lys y Goron, mae'r ffi ymgyfreitha yn cynnwys yr elfen Llys Ynadon gyda Ffi Llys y Goron.

- Bu hefyd fater lle cynhaliwyd achos yng Nghaer ond a drosglwyddwyd i Warrington ar gyfer dedfryd oherwydd bod y Barnwr yn digwydd bod yn eistedd yn y llys hwnnw.

  Cafodd yr achos ei ffeilio yn y Llys a'r LSC fel ple euog er yr achos oherwydd bod y tîm costau wedi cysylltu â'r llys olaf a bod cofnodion Llys Warrington yn dangos yr achos fel ple euog. Dywed y tîm costau fod yn rhaid i'r achos fynd yn awr gerbron Barnwr Costau.

Gwaith Cyfreithwyr i anfon manylion at Hilary Williams a Hilary i godi'r mater gyda'r Tîm Costau a Pholisi.

(b) <u>VHCC yn y dyfodol</u>

C1 *Ydych chi'n meddwl fod y trothwyon presennol ar gyfer diffinio VHCC yn synhwyrol? Beth ddylent fod? Pa feini prawf y medrid eu defnyddio i benderfynu os dylai achos fod yn VHCC?*

Teimlai'r grŵp mai 40 diwrnod oedd y mesur cywir gan y medrai cyfrif tudalennau fod yn beryglus. Medrai achosion symlach fod â miloedd o dudalennau ond mewn gwirionedd ni fyddent yn achos anodd.

Felly byddai'n well cadw at 40 diwrnod.

C2 *Pa ddangoswyr cymhlethdod y medrem eu defnyddio i gymharu achos heb fod yn VHCC gyda VHCC wrth benderfynu os yw achos yn cymhwyso fel profiad dilys?*

Credid na ddylai fod panel VHCC gan ei fod yn cynnal siop gaeedig.

Y meini prawf ddylai fod os ydych yn medru ymdopi â chymhlethdod a maint yr achos yr ydych wedi'i dderbyn. Dylai cwmnïau ddangos fod y gallu hwn ganddynt. Os gwyddoch na fedrwch ymdopi ag achos, ni ddylech ei dderbyn.

Nid profiad mewn blynyddoedd yw'r mesur cywir bob amser. Yr her fwyaf yw sut mae busnesau yn rheoli cymhlethdod trin tystiolaeth.

ee Achosion twyll - gall y rhain fod angen rheoli gan gyfrifyddion fforensig, cofnodion ffôn cymhleth, nifer fawr o ddiffynyddion.

Dylid gadael i fusnesau wybod sut maent yn trin achosion a chymhlethdod a sut y maent yn gweini rheolaeth achosion.

(c) <u>Diweddariad Troseddu Is a BVT</u>

<u>BVT</u>

C1 *A ydych wedi bod yn unrhyw un o'r digwyddiadau ymgynghori neu wedi gweld y cyflwyniad fideo? Rhowch adborth ar strwythur, cynnwys ac ati.*

Nid oedd yr aelodau wedi mynd ar-lein i weld y fideo ond roeddent wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori. Roedd y fideo yn ddefnyddiol ar wahân i'r cyflwyniad y credid ei fod yn ddiangen.

C2 *A yw'r fformat fideo yn rhywbeth y byddech yn hoffi ei weld yn cael ei ddefnyddio'n amlach mewn ymgynghoriadau'r LSC yn y dyfodol?*

Mae fideo yn fformat defnyddiol ar gyfer rhannu manylion a ffeithiau. Cadarnhaodd aelodau y byddai fideos hyfforddi'n cael eu rhannu ac y byddai'n annog pobl ym mhob rhan o'r busnes i'w defnyddio.

C3 *A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion?*

<u>Troseddu Is</u>

C4 *Beth yw eich barn am symud i system electronig ar gyfer tendr contract 2010?*

BVT - roedd y fformat cyffredinol yn iawn ond roedd y cyflwyniad i'r pod-ddarllediad yn rhy hir ac nid oedd ei angen gan y gwyddai pob cyfreithiwr pam y cynigir BVT.

Roedd y fformat a'r cysyniad yn dda.

Byddai CD yn syniad da er mwyn cael rhywbeth i edrych yn ôl arno i brocio'r cof ac ar gyfer dibenion hyfforddiant, fodd bynnag byddai'n dod yn hen yn gyflym iawn.

Teimlai rhai bod BVT yn parlysu pobl gydag ofn y byddant allan o fusnes. Mae bob amser yr anhawster y medrai pobl adael os nad ydych chi'n ei gael yn iawn.

Byddai'n drychinebus i gyfreithwyr os mai dim ond yn eu hardaloedd eu hunain y medrent wneud gwaith Llys.

2. <u>Cynlluniau System Gyfan - Troseddu</u>

C1 *Beth ydych chi'n ei ystyried yw'r materion pwysicaf i'w codi gyda'ch LCJB?*

- Teimlid y byddai cyflwyno'r broses symleiddio'n cynyddu cyfraddau achosion a gaiff eu cracio gan nad oes gan yr heddlu o reidrwydd y sgiliau cywir i grynhoi'r dystiolaeth yn fedrus.

- Nid yw'r cyfreithwyr yn cael crynodebau neu DVDs o gyfweliadau.

C2 *Sut y teimlwch y gwnaeth eich LCJM wahaniaeth i arfer gweithio lleol?*

Gwahaniaeth eithaf sylweddol gyda chynnydd cyflym, wedi setlo i weithio'n eithaf da.

Bu CJSSS yn eithaf da i bawb.

Dywedodd Hilary wrth y cyfarfod y cyflwynwyd arbenigwr ar iechyd meddwl a gyflogir yn Llysoedd y Gogledd i gynnal asesiadau.

Cadarnhaodd aelodau na chawsant unrhyw gyswllt hyd yma ac nad oeddent wedi gweld y person mewn Llys ond byddai'n fanteisiol iawn pe bai cyfreithwyr amddiffyniad yn medru cael mynediad i'r arbenigwr ar iechyd meddwl.

Gwaith Bydd Hilary yn holi am hyn ac yn cysylltu gydag aelodau gyda rhifau ffôn ar gyfer yr Uned Iechyd Meddwl yn y Gogledd.

C3 *A yw nifer y galwadau na chaiff eu hateb mewn gorsaf heddlu yn arwydd o faterion eraill?*

C4 *Beth yw effaith galwadau na chaiff eu hateb ar eich busnes?*

Mae'n rhwystredig cael eich ffonio yn y nos ac yna ganfod na fedrwch fynd trwodd i'r uned ddalfa gan nad oes neb yn ateb y ffôn. Gall hyn wedyn arwain at rwystredigaeth y sawl sy'n y ddalfa ac at golli incwm i'r cyfreithiwr. Byddai'n ddefnyddiol cael cyswllt e-bost gyda swyddog rhag ofn neu linell ffacs arbennig ar gyfer pob uned dalfa.

3. Cyflenwi Buddion Trawsnewid

Hysbysodd James y grŵp fod tîm Prosiect Trawsnewid Cyflenwi yn edrych ar ffyrdd newydd o gyflwyno ffurflenni yn electronig drwy'r rhyngrwyd.

Gobeithir cyflwyno rhan fewnol y system ddiwedd 2009. Bydd y system yn gwneud pethau'n gyflymach ac yn rhwyddach i gyfreithwyr.

C1 *Sut y credwch y bydd gweithio electronig (Trawsnewid Cyflenwi) o fudd i chi a'ch cleientiaid?*

C2 *Oes gennych chi unrhyw bryderon am weithio electronig?*

Teimlai'r grŵp y medrai fod yn anodd ei ddefnyddio ac yn araf. Teimlent fod angen cael rhywbeth cyflymach os yw ffurflenni i gael eu llenwi ar-lein.

Bydd hefyd angen gwybod eich codau ymlaen llaw. Medrai fod yn feichus.

A yw'r ffurflenni'n ddwyieithog ac os felly a fyddai rhywun yn yr LSC a fyddai'n eu deall, yn arbennig os anfonir rhai o'r ffurflenni hyn i swyddfa LSC y tu allan i Gymru?

Cadarnhaodd James fod y system ffurflenni yn safle e-bost diogel a bod OCJR yn ailnegodi contractau gyda'r darparydd ar gyfer e-bost diogel.

Teimlai rhai o'r grŵp na fydd y system newydd yn rhoi mantais cost i gyfreithwyr. Bydd cost ychwanegol ar gyfer argraffu copïau ar gyfer eu ffeiliau.

Roedd gan y grŵp bryderon am newidiadau mewn codau ac nad oedd darparwyr meddalwedd yn diweddaru hynny.

Mae James yn rhan o Dîm Prosiect sy'n delio gyda gwerthwyr meddalwedd a medrodd gadarnhau fod ganddynt 80 ar eu rhestr cylchredeg. Anfonir y newidiadau cod at bob gwerthwr iddynt ddiweddaru eu systemau cyn cael eu rhoi i'w cleientiaid.

Gwaith: Bydd James yn mynd â'r holl gwestiynau yn ôl at Dîm Prosiect Cyflenwi Trawsnewid.

4. Parodrwydd Darparwyr a Chefnogaeth

Hysbysodd James y grŵp y sefydlwyd tîm cefnogaeth 18 mis yn ôl i wella perthynas a chyfathrebu gyda darparwyr i gael adborth ar faterion, i lobio Timau Polisi, trosglwyddo sylwadau a rhoi cefnogaeth drwy'r broses ad-drefnu.

Rydym yn barod ar gyfer ymestyn rhaglen hyfforddiant. Mae Price Waterhouse Cooper Consultants yn llunio pecyn i'w beilota yn Awst 2009. Manylion y pynciau hyfforddiant, a ffurfiwyd drwy ein trafodaethau'r Grŵp Cyfeirio Darparwyr yw:-

- Sgiliau Ariannol
- Strwythurau Busnes Amgen
- Ehangu eich busnes
- Y defnydd gorau o dechnoleg gwybodaeth ac arbedion cysylltiedig

Bydd yr hyfforddiant ar gael drwy fodiwlau dysgu ar-lein, a bydd pwyntiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus arnynt. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer sesiynau wyneb-i-wyneb yng nghyswllt BVT (troseddu) ym Manceinion, Bryste a Taunton. Caiff yr ymestyniad hwn ei fonitro fel rhan o adolygu'r peilot ehangach.

Ni fydd mwy na 15 yn bresennol ym mhob gweithdy, a'r bwriad yw cynnal tua 70 o sesiynau gweithdy hanner diwrnod.

C1 *Mae'r tîm PRS angen cyfanswm o 15 darparydd i weithio gyda'n darparydd hyfforddiant, gan ein bod yn awr mewn sefyllfa i ddatblygu astudiaethau achos a pheilota'r pecyn cymorth.*
Gofynnir i chi anfon neges e-bost at emma.mcgovern@legalservices.gov.uk os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y datblygiad hwn.

C2 *Dan y pynciau hyfforddiant, beth yw'r meysydd allweddol fydd angen eu trafod yn yr hyfforddiant?*

Gwaith Bydd James yn anfon gwybodaeth ar y peilot drwy e-bost at y rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod.

C3 *Sut hoffech chi glywed am ddatblygiad a lansiad ein rhaglen cefnogaeth?*

Cadarnhaodd y grŵp mai ei dewis fyddai E-hysbys. Dulliau eraill fyddai anfon gwybodaeth drwy'r post, defnyddio gwefan yr LSC neu hyd yn oed hysbysebu yn y Gazette.

C4 *Fyddech chi'n rhagweld y byddwch chi a/neu eich staff yn defnyddio hyfforddiant rhyngweithiol ar-lein?*

Teimlai'r grŵp fod y meysydd dysgu yn hanfodol wrth i'r LSC ddatblygu'r rhaglen ad-drefnu.

5. Telerau Safonol Newydd ar gyfer Contractau 2010

C1 *Rhowch adborth ar y dilynol gan sôn am bethau cadarnhaol, pryderon a meysydd y gall fod angen mwy o gefnogaeth a chyfathrebu.*

Teimlai'r grŵp y dylai fod mwy o wybodaeth beth yw cyfrifoldebau cyfreithwyr dan TUPE. Mae siawns y bydd BVT yn achosi bod yn agored i atebolrwydd. Mae busnesau angen eglurhad ar yr ansicrwydd. Mae cyfreithwyr yn gorfod cytuno ar gontractau newydd ond mae ansicrwydd yn dal i fod.

Goblygiad i ddatgelu gwybodaeth ariannol – beth yn union mae hyn yn feddwl gan fod bob amser risg ariannol wrth redeg busnes.

Mae mwy o adborth yn anodd heb gael eglurhad ar y cwestiynau uchod.

6. Eitemau Trafod Lleol

Grantiau cefnogi hyfforddiant - cadarnhawyd nad oes unrhyw newyddion ar hyn o bryd. Mae'n edrych fel y gall fod yn rhaid gohirio'r rhaglen eleni.

7. Cais am eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf

Ni chynigiwyd unrhyw eitemau.

8. Unrhyw Fater Arall

Cynigion Sicrwydd Ansawdd

C1 *Ydych chi'n cytuno y dylai ansawdd cyngor dderbyn sicrwydd o fewn y proffesiwn, gan reoleiddwyr a chyrff cynrychioladol?*

Teimlid y dylai popeth yn gysylltiedig ag ansawdd cyngor fod â sicrwydd ansawdd. Teimlid hefyd y dylai ceisiadau am newid cyfreithiwr fod yn ddangosydd ansawdd.

C2 *Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau i dderbyn Lexcel yn lle SQM ac i allgyrchu archwilio SQM?*

Derbynnir fod angen rhyw fesur, teimlid fod mwy o gostau yn cael eu gwthio ar gyfreithwyr.

C3 *Ydych chi'n cytuno y dylid bod â mwy o darged wrth ddefnyddio Adolygiad Cymheiriaid?*

Teimlai'r grŵp fod Adolygiadau Cymheiriaid yn ymarferiad gwirioneddol ddrud ac y byddai ei dargedu yn arbed costau.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 17 Tachwedd 2009**

Amser: **1.30 pm Te/Coffi a Chinio**
2.00 pm Cyfarfod i gychwyn

Lleoliad: **Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol,**
4ydd Llawr, Tŷ Marland,
Sgwâr Canolog,
Caerdydd
CF10 1PF

Ffôn: 029 2064 7253